



Annwyl Gwsmer

Swyddfa Bost® Llanelli
18 Stryd Ioan, Llanelli, SA15 1AA

Ymgynghoriad cyhoeddus lleol

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi am rai newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth Swyddfa'r Post yn yr ardal. Mae hyn yn golygu ein bod heddiw'n dechrau ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o chwe wythnos ynghylch cau cangen Swyddfa Bost Llanelli.

Ein hargymhelliad

Yn ddiweddar, yn ardal Llanelli, rydym wedi agor dwy gangen newydd yn Stryd yr Eglwys ar 24 Medi 2018 gydag oriau agor o 07:00 i 20:00 o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn ac o 08:00 i 16:00 ddydd Sul; ac yn Heol Pen-bre ar 30 Ebrill 2019 gydag oriau agor o 07:30 i 22:00 o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn a 08:30 i 21:00 ddydd Sul.

Hefyd, mae sawl cangen arall yn yr ardal y gallai cwsmeriaid eu defnyddio. Er enghraifft, mae Swyddfa Bost Stryd Ann a Swyddfa Bost Dociau Llanelli o fewn 0.6 milltir i Swyddfa Bost Llanelli.

Rydym yn ffyddiog y gall ein canghennau newydd ateb galw'r cwsmeriaid, gan gynnwys cwsmeriaid ychwanegol, trwy gynnig dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post, a dal i fod yn hygyrch. Bydd y nifer fach o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post na fydd ar gael yn ein canghennau newydd, megis Gwirio ac Anfon Pasport, gwasanaethau Adnabod, rhoi newid a bancio gwerth-uchel, yn dal i fod ar gael yn Swyddfa Bost Stryd Ann, 18 Stryd Ann, Llanelli, SA15 1TD a Swyddfa Bost Dociau Llanelli, 3 Heol y Doc Newydd, Llanelli, SA15 2EG.

Mae'r peiriant arian parod allanol agosaf mewn cangen Swyddfa'r Post tua 0.4 milltir i ffwrdd yn Swyddfa Bost Stryd Ann, 18 Stryd Ann, Llanelli, SA15 1TD. Mae holl ganghennau Swyddfa'r Post yn cynnig mynediad am ddim i arian parod ar ran prif fanciau'r stryd fawr. Bydd cwsmeriaid yn gallu defnyddio cerdyn debyd i godi arian wrth gownter y gangen newydd yn ystod yr holl oriau agor estynedig.

Cefndir

Rydym wedi gwneud llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf - moderneiddio dros 7,000 o ganghennau ar draws y DG er mwyn rhoi canghennau atyniadol a modern i gwsmeriaid mewn lleoliadau busnes lleol llewyrchus a chynnig 200,000 o oriau agor ychwanegol. Ond mae angen i ni wneud mwy i wneud yn siŵr y gallwn ateb gofynion newidiol ein cwsmeriaid. Ein nod yw cynnig Swyddfeydd Post sydd yn gyfleus o ran lleoliad ac oriau agor i'n cwsmeriaid mewn marchnad gystadleuol. Yn unol â hyn, fel rhan o'n strategaeth manwerth newydd, rydym yn agor mwy o ganghennau bach, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, fel y gallwn gynnig mynediad cyfleus ac oriau agor estynedig i gwsmeriaid.

Wrth wneud hyn gallwn gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn cymunedau mewn ffordd fwy cynaliadwy – mewn partneriaeth â mân-werthwr i gynnig Swyddfa Bost ynghyd â siop. Mae hyn yn golygu rhannu cwsmeriaid a chostau cyffredinol ac yn caniatáu i ni gadw ein presenoldeb mewn lleoliadau allweddol er gwaethaf costau cynyddol. Yn wir, dyma'r ffordd y mae dros 98% o'n Rhwydwaith yn gweithredu erbyn hyn.

Rydym wedi cydweithio â'r gweithredydd dros-dro yn y gangen hon wrth chwilio am atebion. Fodd bynnag, wrth greu rhwydwaith cynaliadwy, rhaid chwilio am fwy nag un ateb; mae pob cangen a chymuned yn wahanol, a rhaid i ni ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael i ni. Yn yr achos hwn, gyda'r canghennau newydd yn gweithredu a changhennau pellach yn yr ardal, credwn y bydd digon o gyfleustra a dewis i gwsmeriaid heb orfod cadw Swyddfa Bost Llanelli.

Ymgynghori ynghylch ein cynlluniau

Rydym nawr yn dechrau ar gyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol. Mae cau'r gangen hon yn benderfyniad masnachol i Swyddfa'r Post Cyf ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid. Fodd bynnag, hoffem gael eich barn am fynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post yn yr ardal yn dilyn y cau.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth neu sylwadau cyffredinol gennych, ond byddai eich sylwadau ar y canlynol yn arbennig o werthfawr:

- Pa mor hawdd yw cyrraedd y canghennau eraill?
- A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r canghennau eraill ac i symud o gwmpas y tu mewn?
- A oes unrhyw faterion cymunedol lleol, yn eich barn chi, y gallai'r newid gael effaith arnynt?
- A oes gennych unrhyw awgrymiadau a allai helpu i wneud y newid yn well?

Cafodd taflen wybodaeth sydd yn rhoi rhagor o fanylion am y canghennau Swyddfa'r Post eraill ei hamgáu. Gallwch rannu eich sylwadau am yr argymhelliad hwn, ac i gael rhagor o wybodaeth byddwch cystal ag ymweld â'n Canolfan Ymgynghori trwy'r ddolen isod. Yna defnyddiwch y ffwythiant chwilio i gael y manylion am yr ymgynghoriad ar gyfer y gangen hon, naill ai trwy enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen, sef 150642.

postofficeviews.co.uk

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn Llanelli. Os hoffech gael cyflenwad o'r poster hyn, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda.

Dyddiadau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus lleol:

Cychwyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol	9 Gorffennaf 2019
Diwedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol	20 Awst 2019
Dyddiad y newid	14 Medi 2019

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Mae'r broses ymgynghori hon yn unol a'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun. Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad rhown wybod i chi am ein cynlluniau terfynol wrth arddangos poster yn y gangen ac yn lleol. Os ydych yn gynrychiolydd lleol byddaf mewn cysylltiad â chi eto.

Yr eiddoch yn gywir

Jeremy Kiff

Jeremy Kiff
Rheolwr Newid

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Ffôn: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments

Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.

Eisiau rhoi eich barn i ni yn y fan a'r lle – Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.



Mae eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd. Felly, dylid anfon sylwadau trwy Radbost mewn da bryd i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod o ymgynghori. Nid yw diwrnodau gwaith yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Taflen wybodaeth

Swyddfa Bost Stryd yr Eglwys

Cyfeiriad	Siop y Gornel Stryd yr Eglwys Vauxhall Llanelli SA15 3BD														
Oriau agor y Swyddfa Bost	<table border="1"> <tr><td>Llun</td><td>07:00 – 20:00</td></tr> <tr><td>Mawrth</td><td>07:00 – 20:00</td></tr> <tr><td>Mercher</td><td>07:00 – 20:00</td></tr> <tr><td>Iau</td><td>07:00 – 20:00</td></tr> <tr><td>Gwener</td><td>07:00 – 20:00</td></tr> <tr><td>Sadwrn</td><td>07:00 – 20:00</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>08:00 – 16:00</td></tr> </table>	Llun	07:00 – 20:00	Mawrth	07:00 – 20:00	Mercher	07:00 – 20:00	Iau	07:00 – 20:00	Gwener	07:00 – 20:00	Sadwrn	07:00 – 20:00	Sul	08:00 – 16:00
Llun	07:00 – 20:00														
Mawrth	07:00 – 20:00														
Mercher	07:00 – 20:00														
Iau	07:00 – 20:00														
Gwener	07:00 – 20:00														
Sadwrn	07:00 – 20:00														
Sul	08:00 – 16:00														
Pellter	Tua 0.6 milltir i ffwrdd o gangen Swyddfa'r Post Llanelli, ar hyd tir amrywiol.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd amrywiaeth o brif gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael.														
Hygyrchedd	Mynediad a chyfleusterau Mae yna ddrws llydan a strïbed trothwy wrth y fynedfa i'r gangen. Y tu mewn, mae dolen glyw, cownter gwasanaeth isel a lle i gadair olwyn. Trafnidiaeth/parcio Mae modd parcio ym Maes Parcio Stryd yr Eglwys, o fewn 65 metr i'r gangen. Mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ar gael yn ôl ac ymlaen i'r cyffiniau.														

Swyddfa Bost Heol Pen-bre

Cyfeiriad	Siop Hwyr SNA 60 Heol Pen-bre Llanelli SA15 3BP														
Oriau agor yn Swyddfa Bost	<table border="1"> <tr><td>Llun</td><td>07:30 – 22:00</td></tr> <tr><td>Mawrth</td><td>07:30 – 22:00</td></tr> <tr><td>Mercher</td><td>07:30 – 22:00</td></tr> <tr><td>Iau</td><td>07:30 – 22:00</td></tr> <tr><td>Gwener</td><td>07:30 – 22:00</td></tr> <tr><td>Sadwrn</td><td>07:30 – 22:00</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>08:30 – 21:00</td></tr> </table>	Llun	07:30 – 22:00	Mawrth	07:30 – 22:00	Mercher	07:30 – 22:00	Iau	07:30 – 22:00	Gwener	07:30 – 22:00	Sadwrn	07:30 – 22:00	Sul	08:30 – 21:00
Llun	07:30 – 22:00														
Mawrth	07:30 – 22:00														
Mercher	07:30 – 22:00														
Iau	07:30 – 22:00														
Gwener	07:30 – 22:00														
Sadwrn	07:30 – 22:00														
Sul	08:30 – 21:00														
Pellter	Tua 0.4 milltir i ffwrdd o gangen Swyddfa'r Post Llanelli, ar hyd tir amrywiol.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd amrywiaeth o brif gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael.														
Hygyrchedd	Mynediad a chyfleusterau Mae yna ddrws llydan a grisïau wrth y fynedfa i'r gangen. Y tu mewn, mae cownter gwasanaeth isel a dolen glyw. Trafnidiaeth/parcio Mae modd parcio ar y ffordd yn Stryd Stewart wrth ymyl y gangen a gerllaw. Mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ar gael yn ôl ac ymlaen i'r cyffiniau.														

Gwasanaethau Swyddfa'r Post sydd ar gael

Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk

	Llanelli	Stryd yr Eglwys	Heol Pen-bre
Post			
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth	✓	✓	✓
Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig)	✓	✓	✓
Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post	✓	✓	✓
Signed For	✓	✓	✓
Special Delivery	✓	✓	✓
Dychweliadau siopa o gartref	✓	✓	✓
Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr	✓	✓	✓
Parseli Express a contract	✓	✓	✓
Post Lluoedd Prydain (BFPO)	✓	✓	✓
Llythyrau a cherdiau post rhyngwladol (yn cynnwys signed for ac Ainsure)	✓	✓	✓
Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg	✓	✓	✓
Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol	✓	✓	✓
Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol)	✓	✓	✓
Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol	✓	✓	✓
Local Collect	✓	✓	✓
Drop & Go	✓	✓	✓
Codi arian, adneuon a thaliadau			
Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post	✓	✓	✓
Bancio personol a busnes: codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw) hyd at uchafswm gwerth.	✓	✓	✓
Archebion Post	✓	✓	✓
Moneygram	✓	✓	✓
Talu biliau (cerdyn, â chod bar neu â llaw)	✓	✓	✓
Adlenwi allweddi	✓	✓	✓
Gyrru			
Treth y car	✓	✗	✗
Adnewyddu trwyddedau gyrru	✓	✗	✗
Trwyddedau			
Trwyddedau pysgota â gwialen	✓	✓	✓
Gwasanaeth Ardystio Dogfennau	✓	✗	✗
Teithio			
Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw	✓	✓	✓
Arian Teithio ar gais	✓	Ewros/Doleri	✗
Atgyfeirio yswiriant teithio	✓	✓	✓
Yswiriant teithio ar gais	✗	✗	✗
Gwirio ac Anfon Pasbort	✓	✗	✗
Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau	✓	✓	✓
Terfynell Loteri Cenedlaethol	✓	✗	✗
Talu â siec	✓	✓	✗

Mae cynhyrchion a nodwyd â ✗ ar gael yn **Swyddfa Bost Stryd Ann a Swyddfa Bost Dociau Llanelli**.
Mae'r manylion llawn isod

Swyddfa Bost Stryd Ann

Cyfeiriad	18 Stryd Ann Llanelli SA15 1TD														
Oriau agor y Swyddfa Bost	<table><tr><td>Llun</td><td>08:30 – 17:30</td></tr><tr><td>Mawrth</td><td>08:30 – 17:30</td></tr><tr><td>Mercher</td><td>08:30 – 17:30</td></tr><tr><td>Iau</td><td>08:30 – 17:30</td></tr><tr><td>Gwener</td><td>08:30 – 17:30</td></tr><tr><td>Sadwrn</td><td>09:00 – 14:30</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar gau</td></tr></table>	Llun	08:30 – 17:30	Mawrth	08:30 – 17:30	Mercher	08:30 – 17:30	Iau	08:30 – 17:30	Gwener	08:30 – 17:30	Sadwrn	09:00 – 14:30	Sul	Ar gau
Llun	08:30 – 17:30														
Mawrth	08:30 – 17:30														
Mercher	08:30 – 17:30														
Iau	08:30 – 17:30														
Gwener	08:30 – 17:30														
Sadwrn	09:00 – 14:30														
Sul	Ar gau														
Pellter	Tua 0.4 milltir i ffwrdd o gangen Swyddfa'r Post Llanelli, ar hyd tir amrywiol.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael.														
Hygyrchedd	Mynediad a chyfleusterau Mae drws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa i'r gangen hon Y tu mewn, mae dolen glyw, cownter gwasanaeth isel a lle i gadair olwyn. Trafnidiaeth/parcio Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i'r gangen ac ar hyd Stryd Ann. Mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ar gael yn ôl ac ymlaen i'r cyffiniau.														

Swyddfa Bost Dociau Llanelli

Oriau agor y Swyddfa Bost	<table><tr><td>Llun</td><td>08:30 – 17:30</td></tr><tr><td>Mawrth</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Mercher</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Iau</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Gwener</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Sadwrn</td><td>09:00 – 17:30</td></tr><tr><td>Sul</td><td>Ar gau</td></tr></table>	Llun	08:30 – 17:30	Mawrth	09:00 – 17:30	Mercher	09:00 – 17:30	Iau	09:00 – 17:30	Gwener	09:00 – 17:30	Sadwrn	09:00 – 17:30	Sul	Ar gau
Llun	08:30 – 17:30														
Mawrth	09:00 – 17:30														
Mercher	09:00 – 17:30														
Iau	09:00 – 17:30														
Gwener	09:00 – 17:30														
Sadwrn	09:00 – 17:30														
Sul	Ar gau														
Pellter	Tua 0.6 milltir i ffwrdd o gangen Swyddfa'r Post Llanelli, ar hyd tir amrywiol.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael.														
Hygyrchedd	Mynediad a chyfleusterau Mae drws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa i'r gangen hon Y tu mewn, mae dolen glyw, cownter gwasanaeth isel a lle i gadair olwyn. Trafnidiaeth/parcio Mae modd parcio yng nghefn y gangen Mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ar gael yn ôl ac ymlaen i'r cyffiniau.														

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau Agor
- Cau dros dro¹/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Byddwn yn **Ymgysylltu** – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol.

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol², y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol³, i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post⁴ yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos⁵ er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydych wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

postofficeviews. co.uk.

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

² Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cyngorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

³ Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

⁴ Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

⁵ Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.